**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# ADOLYGU POLISI TROSGLWYDDO'R STOC DAI: ADRODDIAD DIWYGIEDIG

## Pwnc

1. Cael barn y Pwyllgor ar ddrafft diwygiedig o'r adroddiad ar adolygu polisi trosglwyddo'r stoc dai.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad drafft amgaeëdig.

## Amseru

3. Yng ngoleuni barn y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, paratoir fersiwn terfynol i'w gyhoeddi. Trefnir trafodaeth ar yr adroddiad yn y cyfarfod llawn ar 24 Mai.

## Cefndir

4. Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor o'r adroddiad drafft ar 28 Chwefror, ynghyd â'r cyflwyniad gan Trowers and Hamlins ar 14 Mawrth, paratowyd drafft diwygiedig o adroddiad yr adolygiad.

5. Ar y cyfan, ychydig o newidiadau a gafwyd i'r adroddiad drafft blaenorol. Y prif newidiadau yw:

- Yr ychwanegiadau i baragraffau 3.5 i 3.9 ar y Fenter Cyllid Preifat, sydd yn awr yn cynnwys prydlesu stoc;
- Geiriad diwygiedig argymhelliad 8, sydd yn awr yn cyfeirio at Gabinet y Cynulliad yn ystyried y ffordd orau i gynghori (yn hytrach nag annog) awdurdodau lleol sydd â diddordeb mewn mynd ymlaen gyda throsglwyddo stoc neu brosiectau'r Fenter Cyllid Preifat;
- Paragraff newydd 5.14 ac argymhelliad 15 ynghylch yr angen i gynnwys staff yr awdurdod lleol yn y broses o arfarnu opsiynau;
- Ychwanegiad at argymhelliad 18, i gymryd i ystyriaeth y pryder sydd y bydd sefydliadau trosglwyddo stoc yn colli cysylltiad â'u tenantiaid ymhen amser;
- Diwygio paragraff 6.8, sy'n awr yn cyfeirio at fudiadau cymunedol cydfuddiannol;
- Atodiad 5 newydd ar gyllid cyfalaf a gwarantu.

6. Byddai o gymorth i gael barn y Pwyllgor ar y fersiwn hwn o’r adroddiad. Os yw’r Aelodau’n fodlon, fe baratoir fersiwn terfynol o’r adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi. Trefnir trafodaeth ar yr adroddiad hwn yn y cyfarfod llawn ar 24 Mai.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Mawrth 2001**